## Cymeriadau yn y Gadair Boeth 4a.

# Stori Gareth

Rwy'n meddwl 'mod i wedi gwneud camgymeriad mawr heddiw.

Fe welais i ffôn symudol mewn bag ac fe wnes i ei ddwyn e. Rwy'n gwybod bod fy chwaer fawr yn gallu ei werthu ar eBay a gwneud tipyn o arian i mi.

Rwy' wedi gwneud hyn o'r blaen ac oherwydd 'mod i'n ofalus rwy'n gallu dianc yn gyflym – dw i erioed wedi cael fy nal. Y broblem yw.....doeddwn i ddim yn cofio bod 'na gamerâu diogelwch newydd yn yr ysgol!



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Stori Munim

Fy mrawd mawr yw fy ffrind gorau.
Y llynedd, ges i ffôn symudol ganddo fe. Roedd braidd yn hen ffasiwn bryd hynny – ond o leiaf mae gen i un nawr.
Dyw fy mhen-blwydd i ddim am oesoedd eto a dyw fy rhieni ddim yn gallu fforddio prynu ffôn symudol i mi beth bynnag.
Fe ddywedodd fy mrawd ei fod wedi dod o hyd i'r ffôn ac fy mod i'n lwcus i'w gael.



HEDDLU POLICE

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cymeriadau yn y Gadair Boeth 4.a

# Stori Anna



Dyw hi ddim yn deg. Fi yw'r unig ferch yn fy nosbarth i sydd heb ffôn symudol. Mae ffôn gan fy ffrindiau i gyd ac maen nhw'n gwneud pethau cŵl iawn arnyn nhw.

Mae Sara yn gallu lawrlwytho cerddoriaeth! Rydyn ni'n gwrando arni ar yr iard pan na fydd Miss yn edrych. Rwy'n teimlo allan ohoni'n llwyr pan fydd fy ffrindiau'n sôn am y negeseuon testun maen nhw wedi'u hanfon at ei gilydd y noson gynt. I wneud pethau'n waeth, fe glywais i Catrin a Jen yn chwerthin ddoe am nad oes gen i un. Mae'n rhaid i mi gael un rywsut!

HEDDLU POLICE

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cymeriadau yn y Gadair Boeth 4.a

# Stori Levi

Roeddwn i'n cerdded adref o'r ysgol ar ôl chwarae pêl-droed. Rwy'n gobeithio cael fy newis i chwarae dros dîm yr ysgol yn erbyn Treharry. Roeddwn i'n anfon tecst at dad i ddweud wrtho sut yr aeth y gêm. Yna, dyma gang o fechgyn hŷn yn dod o nunlle. Yn sydyn roedden nhw o 'nghwmpas i ym mhobman ac allwn i ddim dianc. Fe wnaethon nhw fy ngorfodi i roi fy ffôn iddyn nhw. Roedd yn rhaid i mi ddweud wrth mam a dad 'mod i wedi'i golli e. Roedden nhw'n gandryll ond mae gormod o ofn arna'i ddweud y gwir wrthyn nhw.



HEDDLU POLICE

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government